OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 143 (Cy. 19)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Froncysyllte, Wrecsam) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Ionawr 2012* |
| *Yn dod i rym* | *6 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Froncysyllte, Wrecsam) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 06.00 o'r gloch ar 6 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) ger Froncysyllte ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r dwyrain o'r arwyddion datgyfyngu i'r gorllewin o Froncysyllte, hyd at bwynt 500 metr i'r gorllewin o'r arwyddion datgyfyngu a enwyd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, gyrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, gyrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 10 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darn o’r gefnffordd, yn ystod yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato erthygl 4 ar waith.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a’r gwaharddiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny mewn grym.

**7.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 23 Ionawr 2012.

*G R Morgan*
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.